

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 28 Mai 2021

STATWS: GWEITHREDU

CATEGORI: Y GWEITHLU

Teitl: Taliad Bonws y GIG ar gyfer Gofal Sylfaenol

Dyddiad Adolygu: 30 Medi 2022

I'w weithredu gan:

Pob Bwrdd Iechyd, i'w raeadru i bob darparwr Gofal Sylfaenol

Angen gweithredu erbyn: 28 Mai 2021

Anfonwyd gan: Andrew Goodall – Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru.

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:

Jodi Sullivan – Jodi.Sullivan@llyw.cymru

Claire Cullen – Claire.Cullen@llyw.cymru

Dogfennau amgaeedig: Canllawiau, Cwestiynau Cyffredin, Hysbysiad Preifatrwydd a Ffurflen Gais i Weithwyr Locwm

1. Cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig ar 17 Mawrth 2021 ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i weithwyr y

GIG a Gofal Cymdeithasol. Mae'r datganiad ysgrifenedig ar gael yma:

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cydnabyddiaeth-ariannol-i-weithwyr-y-gig-gweithwyr-gofal-cymdeithasol>

2. At ei gilydd, mae staff gofal sylfaenol (gan gynnwys gweithwyr locwm) a oedd yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol at ddibenion y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru yn ystod y cyfnod rhwng 17 Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2021 ac sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysra yng Nghyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG) 2021 ("y Cyfarwyddydau") , yn ddarostyngedig i delerau'r Cyfarwyddydau hynny, wedi eu cynnwys yng nghynllun taliad bonws COVID-19 y GIG, er mwyn adlewyrchu eu rôl hanfodol yn ystod pandemig y coronafeirws.
3. Mae cynllun taliad bonws COVID-19 y GIG ("y Cynllun"), fel y mae'n gymwys i'r rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau gofal sylfaenol yn rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, wedi ei nodi yn y Cyfarwyddydau. Mae'r Cylchlythyr hwn yn crynhoi rhai agweddau ar y Cyfarwyddydau a dylid darllen y Cylchlythyr hwn ochr yn ochr â'r Cyfarwyddydau. I'r graddau y bo unrhyw wahaniaeth rhwng y Cylchlythyr hwn a'r Cyfarwyddydau, y Cyfarwyddydau fydd yn gymwys.
4. Mae'r Cylchlythyr hwn a'r Cyfarwyddydau yn nodi amserlenni ar gyfer derbyn ceisiadau a phrosesu taliadau ond dylai pawb sy'n derbyn taliad nodi ei bod y bosibl y gwneir y gwiriadau terfynol ynghylch a yw cais yn gymwys ar ôl i'r arian gael ei dalu, a hynny er mwyn osgoi unrhyw oedi o ran gwneud y taliadau. Yna, caiff unrhyw ordaliadau sy'n ymwneud â cheisiadau anghymwys eu hadennill fel y nodir yn y Cyfarwyddydau.
5. Ceir isod ganllawiau i ddarparwyr gofal sylfaenol a gweithwyr locwm, cwestiynau cyffredin, hysbysiad preifatrwydd a ffurflenni cais.

Canllawiau i Ddarparwyr Gofal Sylfaenol

Mae'r crynodebau isod yn esbonio i ddarparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol meddygol, deintyddol, offthalmig neu fferyllol y GIG a gomisiynir yn uniongyrchol gan y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru (darparwyr gofal sylfaenol) sut y gallai'r Cynllun weithio ar gyfer eu staff yr oedd eu rôl yn ymwneud yn bennaf â chefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hynny, ac ar gyfer gweithwyr locwm a oedd yn darparu'r gwasanaethau hynny'n uniongyrchol.

Mae gan weithwyr locwm cymwys hawl i wneud cais am y taliad bonws o £735 drwy ddarparwr gofal sylfaenol os oeddent yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol GIG Cymru am o leiaf 8 sesiwn bedair awr rhwng 17 Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2021 ("y cyfnod cymwys") ac os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwystra eraill.

Rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol hefyd dalu taliad untro anghyfunol nad yw'n bensiynadwy i ddarparwr gofal sylfaenol ar gyfer pob aelod o staff cymwys y mae'r darparwr gofal sylfaenol hwnnw'n gwneud cais am y taliad bonws ar ei gyfer, ar yr amod bod yr aelod o staff cymwys wedi cwblhau o leiaf bedair wythnos o wasanaeth di-dor i'r darparwr gofal sylfaenol hwnnw yn ystod y cyfnod cymwys a'i fod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra eraill. Y taliad ar gyfer aelodau o staff cymwys fydd £837 (£735 ynghyd â chyfraniad tuag at gyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol y cyflogwr sy'n gysylltiedig â'r taliad).

Os oedd y darparwr gofal sylfaenol, yn ystod y cyfnod cymwys, yn unigolyn neu'n bartneriaeth a oedd yn cynnwys o leiaf un unigolyn, mae'n bosibl y caiff hefyd wneud cais ar ei gyfer ei hun neu ar gyfer pob un o'r unigolion hynny.

Er mwyn cael y taliad bydd rhaid i'r darparwr gofal sylfaenol gydymffurfio â'r holl ofynion o dan y Cyfarwyddydau gan gynnwys amod y bydd y darparwr gofal sylfaenol yn talu'r symiau hynny i'r unigolion cymwys perthnasol hynny, yn amodol ar unrhyw ddiidyniadau CThEM. Er na fwriedir i'r taliad hwn fod yn bensiynadwy, pan nad yw hynny'n bosibl o dan delerau ac amodau'r contractwr ar gyfer aelod o staff cymwys, caiff y darparwr gofal sylfaenol hefyd ddiwynnu unrhyw gyfraniadau pensiwn cyflogwr a chyflogai sy'n gysylltiedig â'r taliad.

Bydd angen i ddarparwyr gofal sylfaenol gyflwyno un ffurflen gais electronig sy'n cynnwys y ceisiadau unigol ar eu cyfer hwy eu hunain (pan fo'r darparwr gofal sylfaenol yn unigolyn neu'n bartneriaeth sy'n cynnwys o leiaf un unigolyn), pob aelod o staff cymwys a'r gweithwyr locwm cymwys hynny sydd wedi cyflwyno ffurflen gais i weithwyr locwm i'r darparwr o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 11 Mehefin 2021 ac yn dod i ben ar 30 Medi 2021.

Fodd bynnag, os bydd darparwyr gofal sylfaenol am gael eu taliadau erbyn 14 Medi 2021, bydd angen iddynt gyflwyno'r ffurflen gais electronig erbyn 30 Mehefin 2021 fan bellaf.

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn prosesu pob cais cymwys a thelir yr arian yn uniongyrchol i'r darparwyr gofal sylfaenol. Yna, bydd rhaid i'r darparwyr drosglwyddo'r taliad hwn (yn amodol ar unrhyw ddiidyniadau a ganiateir, fel y nodir uchod) i'r unigolion cymwys hynny y gwnaethant gais ar eu cyfer.

Ni chaniateir defnyddio'r taliadau hyn i'r unigolion cymwys yn lle unrhyw daliadau eraill y byddai'r unigolion hynny wedi eu cael fel arall.

Ni fydd y taliadau'n cael eu cyfrifo ar sail pro rata pan fo'r sawl sy'n cael y taliad yn gweithio'n rhan-amser, ar yr amod bod y meini prawf cymhwysra wedi eu bodloni.

Y dyddiad cau i ddarparwyr gofal sylfaenol gyflwyno eu ceisiadau yw 30 Medi 2021.

Cymhwysra

Dylai darparwyr gofal sylfaenol droi at y Cyfarwyddydau i weld y meini prawf cymhwysra a'r gofynion cysylltiedig yn llawn, ond yn fras mae'n debygol y caiff darparwyr gwasanaethau gofal sylfaenol GIG Cymru¹, yn ystod y cyfnod cymwys, gyflwyno ceisiadau ar gyfer aelodau o'u staff a gweithwyr locwm os ydynt yn dod o fewn un o'r categorïau canlynol ac nad ydynt yn dod o fewn un o'r categorïau sydd wedi'u heithrio:

- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn cael eu cyflogi neu a oedd wedi eu cymryd ymlaen yn uniongyrchol gan y darparwr gofal sylfaenol ac yr oedd eu rôl yn ymwneud yn bennaf â darparu gwasanaethau gofal sylfaenol meddygol, deintyddol, fferyllol neu offthalmig y GIG, yn rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, yn uniongyrchol i gleifion GIG y darparwr am o leiaf 4 wythnos yn olynol yn ystod y cyfnod cymwys (gan weithio'r oriau neu'r diwrnodau yn ystod y 4 wythnos hynny a oedd yn ofynnol o dan eu contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau).
- Cyflogeion y darparwr gofal sylfaenol yr oedd eu rôl yn ymwneud yn bennaf â chefnogi'n uniongyrchol y gwaith o ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol meddygol, deintyddol, fferyllol neu offthalmig y GIG i gleifion GIG y darparwr, yn rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru, yn y lleoliad lle'r oedd y gwasanaethau GIG hynny'n cael eu darparu i'r cleifion GIG hynny, am o leiaf 4 wythnos yn olynol yn ystod y cyfnod cymwys (gan weithio'r oriau neu'r diwrnodau yn ystod y 4 wythnos hynny a oedd yn ofynnol o dan eu contract cyflogaeth).
- Cyflogeion y darparwr gofal sylfaenol a fyddai wedi dod o fewn y naill neu'r llall o'r ddau gategori uchod pe na baent, yn ystod y cyfnod cymwys, ar absenoldeb arbennig oherwydd COVID-19, yn hunanwarchod [oherwydd COVID-19], ar absenoldeb salwch, ar gyfnod mamolaeth, ar gyfnod tadolaeth, ar absenoldeb rhiant a rennir neu absenoldeb mabwysiadu, neu ar absenoldeb arbennig.
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gymerwyd ymlaen gan ddarparwr gofal sylfaenol fel gweithwyr locwm i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol meddygol, deintyddol, fferyllol neu offthalmig y GIG i gleifion GIG y darparwr gofal sylfaenol mewn lleoliad yng Nghymru (rhaid i'r gweithiwr locwm fod wedi bodloni'r gofyniad hwn gydag un neu ragor o ddarparwyr gofal sylfaenol am o leiaf 8 sesiwn bedair awr yn ystod y cyfnod cymwys).

¹ Yn unol ag adrannau 41(2)(b), 42, 57, 64, 71 a 80 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006.

- Mae'r cyfeiriadau uchod at ddarparwyr gofal sylfaenol a gwasanaethau offthalmig yn cynnwys darparwyr a chanddynt drefniant Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru neu drefniant Golwg Gwan Cymru gyda Bwrdd Iechyd Lleol.

Nid fydd unigolyn yn gymwys i gael y taliad bonws os nad oedd, yn ystod y cyfnod cymwys, ond yn bodloni'r gofynion cymhwysra am ei fod:

- yn staff asiantaeth (gan gynnwys y rhai a gymerwyd ymlaen o dan fodel Cymryd Ymlaen yn Uniongyrchol), ac eithrio gweithwyr locwm cymwys;
- yn gadeirydd, yn aelod anweithredol neu'n aelod annibynnol o fwrdd;
- wedi ei gymryd ymlaen o dan drefniant sy'n dod o fewn rheolau CThEM ar weithio oddi ar y gyflogres (IR35);
- yn weithiwr a oedd yn cael ei dalu ar sail "ffi", ac eithrio gweithwyr locwm cymwys;
- yn fyfyrwr clinigol ar leoliad di-dâl;
- [ar seibiant gyrfa;]
- mewn swydd y cafodd ei ddiswyddo ohoni wedi hynny ac eithrio oherwydd bod y swydd wedi'i dileu, oherwydd salwch neu (yn achos contractau cyfnod penodol) am fod y cyfnod penodol hwnnw wedi dod i ben;
- mewn swydd yr oedd yn cael ei dalu amdani drwy gwmni gwasanaethau personol; neu
- yn gyflogedig neu wedi'i gymryd ymlaen gan is-gontractwr, ar unrhyw lefel, i ddarparwr gofal sylfaenol.

Canllawiau i Weithwyr Locwm

Os oedd gweithiwr iechyd proffesiynol wedi ei gymryd ymlaen fel gweithiwr locwm yn ystod y cyfnod cymwys, er mwyn bod yn gymwys i gael y taliad hwn bydd rhaid iddo (ymhlith gofynion eraill) gadarnhau, a rhoi tystiolaeth os gofynnir iddo wneud hynny, ei fod wedi cwblhau o leiaf 8 sesiwn bedair awr o waith locwm yn rhan o'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru i un neu ragor o ddarparwyr gofal sylfaenol mewn lleoliadau yng Nghymru yn ystod y cyfnod cymwys.

Mae'r Ffurflen Gais i Weithwyr Locwm, i'w defnyddio gan weithwyr locwm, i'w chael yn Atodiad D. Os yw'r gweithiwr locwm am wneud cais am y taliad bonws fel gweithiwr locwm cymwys, mae'n bwysig nodi mai cyfrifoldeb y gweithiwr locwm yw llenwi'r Ffurflen Gais i Weithwyr Locwm, ei chyflwyno i'r practis y gwnaeth y rhan fwyaf o'r 8 sesiwn gymwys o waith iddo a gofyn i'r practis ei gynnwys yn rhan o gais y practis.

Bydd angen i'r gweithiwr locwm lofnodi'r datganiad ac, ymhlith pethau eraill, gadarnhau ei fod wedi cwblhau'r 8 sesiwn yn ystod y cyfnod cymwys. Rhaid i weithwyr locwm lenwi'r Ffurflen Gais i Weithwyr Locwm a'i chyflwyno i'r darparwr gofal sylfaenol priodol y gwnaethant y nifer mwyaf o'u shifftiau iddo erbyn 11 Mehefin 2021 fan bellaf (14 diwrnod yn dechrau â dyddiad y Cylchlythyr Iechyd hwn). Dim ond un cais y dylai pob gweithiwr locwm ei wneud gan mai dim ond un taliad bonws y mae gan bob unigolyn hawl iddo.

Os cymeradwyir cais sydd wedi'i gyflwyno ar ran gweithiwr locwm, caiff £735 ei dalu i'r darparwr gofal sylfaenol a lenwodd ac a gyflwynodd y ffurflen gais electronig. Yna, rhaid i'r darparwr gofal sylfaenol, yn amodol ar unrhyw ddiadyniadau CThEM, drefnu i anfon y taliad ymlaen i'r gweithiwr locwm. Cyfrifoldeb y gweithiwr locwm fydd talu i CThEM unrhyw Yswiriant Gwladol a/neu dreth sy'n ddyledus ar y taliad hwnnw.

Os yw'r gweithiwr locwm yn gweithio fel locwm mewn practis a reolir gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unig neu'n gweithio fel locwm i bractis a reolir gan Fwrdd Iechyd Lleol ac i ddarparwr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, ni fydd angen iddo wneud cais am y taliad hwn na gofyn i'r darparwr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wneud cais ar ei ran. Bydd y gweithiwr locwm yn cael y taliad yn awtomatig drwy gyflogres y GIG, ar yr amod ei fod wedi bodloni'r gofynion sy'n ymwneud â gweithgareddau locwm.

Darpariaeth Drawsffiniol

Os yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysra a'r amodau cysylltiedig, mae'n bosibl y caiff darparwr gofal sylfaenol sydd â chontract neu drefniant i ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol GIG Cymru yn unol ag adrannau 41(2)(b), 42, 57, 64, 71 neu 80 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 gyflwyno cais ar gyfer aelodau o staff cymwys hyd yn oed os yw ei bractis y tu allan i Gymru.

Gwiriadau ar ôl talu

Cynhelir gwiriadau ar ôl talu ar yr hawliad hwn er mwyn sicrhau cysondeb, dileu hawliadau dyblyg a sicrhau cyfreithlondeb. Mae'n bosibl y caiff hawliadau eu hadennill os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra a nodir yn y Cyfarwyddydau. Efallai y gofynnir ichi gyflwyno tystiolaeth o gymhwysra aelodau o'r practis o dan y meini prawf, megis gwybodaeth yn ymwneud â'r gyflogres, felly dylech gadw popeth a fyddai'n cefnogi'r hawliad ac y gellid ei rannu pe gofynnid ichi wneud hynny.

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cynnal gwiriadau cychwynol ar ôl talu er mwyn dileu taliadau dwbl a gwarchod rhag ceisiadau twyllodrus.

Bydd Data Cymru yn cymryd rhan yn y broses hon er mwyn sicrhau cywirdeb i bawb sy'n ymwneud â'r cynllun hwn. Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel prosesydd y data, bydd Data Cymru yn croesgyfeirio data o bob rhan o GIG Cymru sy'n rhan o gynllun taliad bonws COVID-19 GIG Cymru (h.y. y rhai hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r GIG, darparwyr gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol).

Anghydfodau

Gellir codi unrhyw anghydfodau ynghylch ceisiadau am y taliad bonws yn unol â'r drefn ar gyfer ymdrin ag anghydfodau a nodir yn y Cyfarwyddydau. Rhaid i'r partïon wneud ymdrech wirioneddol i ddatrys yr anghydfod yn lleol cyn cyfeirio unrhyw anghydfod at Weinidogion Cymru.

Ymholiadau

Dylai darparwyr gofal sylfaenol, cyflogeion a gweithwyr locwm anfon unrhyw ymholiadau ynghylch taliad bonws COVID-19 y GIG i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru yn y cyfeiriad e-bost hwn:

Nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk

Atodiad A – Cwestiynau Cyffredin

Mae Cwestiynau Cyffredin wedi'u cyhoeddi'n benodol ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol a'u timau, ac maent ar gael yma:

<https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i-weithwyr-gofal-sylfaenol>

Atodiad B – Gwybodaeth i'w rhannu â'ch cyflogeion

Mae'r taliad hwn yn cael ei gyfrif yn enillion, ac felly bydd treth incwm ac yswiriant gwladol yn ddyledus arno. Mewn llawer o achosion, bydd y darparwr gofal sylfaenol yn didynnu'r rhain o'ch taliad. Mae rhagor o wybodaeth am gyfraddau treth incwm ac yswiriant gwladol ar gael yma:

Treth incwm <https://www.gov.uk/income-tax-rates>

Yswiriant gwladol <https://www.gov.uk/national-insurance-rates-letters>

Gan fod y taliad yn cael ei gyfrif yn enillion, caiff ei gynnwys wrth gyfrifo unrhyw fudd-daliadau a gewch. Mae hyn yn cynnwys credyd cynhwysol a chredydau treth yn ogystal â budd-daliadau eraill megis budd-dal tai neu gymhorthdal incwm.

Mae rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau ar gael yma:

<https://www.gov.uk/browse/benefits/entitlement>

Os yw'r aelod o staff cymwys neu'r gweithiwr locwm cymwys yn derbyn budd-daliadau fe'i cynghorir yn gryf i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (neu â'i anogwr gwaith os yw'n cael credyd cynhwysol) er mwyn deall yn iawn beth fydd goblygiadau derbyn y taliad bonws.

Efallai y bydd yn bosibl cael y taliad mewn rhandaliadau, ond bydd angen i'r sawl sy'n derbyn y taliad a'r darparwr gofal sylfaenol gytuno ar hynny rhyngddynt.

Caiff y taliad hefyd ei gynnwys wrth gyfrifo ad-daliadau unrhyw fenthyciadau myfyrwyr sy'n ddyledus.

Mae rhagor o wybodaeth am ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ar gael yma:

<https://www.gov.uk/repaying-your-student-loan>

Atodiad C – Hysbysiad Preifatrwydd

Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Taliad Bonws COVID-19 i Gontractwyr Gofal Sylfaenol

<https://pcgc.gig.cymru/ein-gwasanaethau/gwasanaethau-gofal-sylfaenol/primary-care-services-documents/gdpr/hysbysiadpreifatrwyddargyfertaliadbonwscovid19/>



Atodiad D – Ffurflen Gais i Weithwyr Locwm

Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG ar gyfer Gofal Sylfaenol

I wneud cais am y taliad bonws, rhaid ichi fodloni'r meini prawf cymhwysra yn y Cyfarwyddydau a rhaid ichi lenwi'r ffurflen hon a'i chyflwyno i'r darparwr gofal sylfaenol y gwnaethoch y rhan fwyaf o'r 8 sesiwn gymwys iddo yn ystod y cyfnod cymwys.

Rhaid i'r darparwr gofal sylfaenol yr ydych am iddo wneud cais ar eich rhan gael ffurflen gais wedi ei llenwi gennych erbyn 11 Mehefin 2021 fan bellaf. Yna, bydd y darparwr gofal sylfaenol yn ychwanegu eich manylion at ei ffurflen gais er mwyn gwneud cais ar eich rhan, ac os bydd y cais yn cael ei gymeradwyo bydd yn cael y taliad sy'n ddyledus ichi.

Os bydd cais yn cael ei gymeradwyo, bydd taliad o £735 yn cael ei dalu i'r darparwr gofal sylfaenol a wnaeth y cais ar eich rhan. Wedyn, bydd rhaid i'r darparwr gofal sylfaenol drefnu gyda chi i anfon y taliad o £735 ymlaen atoch, yn amodol ar unrhyw ddiidyniadau CThEM.

Sylwer: Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod CThEM yn derbyn unrhyw Yswiriant Gwladol a/neu dreth sy'n ddyledus ar eich taliad bonws COVID-19.

Ni fydd angen i weithwyr locwm sy'n gweithio mewn practis a reolir gan Fwrdd Iechyd Lleol, neu a gyflogir yn uniongyrchol drwy'r GIG, wneud cais i ddarparwr gofal sylfaenol am daliad bonws COVID-19 y GIG. Caiff y taliad bonws ei brosesu'n awtomatig drwy gyflogres y GIG os yw'r gweithiwr locwm yn gymwys.

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys ai peidio, cysylltwch â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk

Datganiad

Rwy'n datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred fod yr wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen hon yn gywir, a'm bod yn bodloni meini prawf cymhwysra Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG fel locwm cymwys o dan Gyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG) 2021.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn dymuno gwneud cais am daliad bonws COVID-19 y GIG, ac yn awdurdodi'r darparwr gofal sylfaenol a enwir isod i ddefnyddio'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ffurflen hon i wneud cais am daliad ar fy rhan.

Rwy'n deall ac yn derbyn y gallai camau gael eu cymryd yn fy erbyn os byddaf yn cadw gwybodaeth yn ôl neu'n darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, ac y gallwn

wynebu erlyniad troseddol a/neu achos sifil, ac y gallwn orfod ad-dalu unrhyw swm a dalwyd imi.

Rwy'n cytuno i wybodaeth berthnasol gael ei datgelu er mwyn dilysu fy nghais ac er mwyn atal a chanfod twyll. Mae trywydd archwilio ar gael i'w archwilio, naill ai ar safle'r darparwr gofal sylfaenol sy'n gwneud y cais, neu ar gais, gan swyddogion awdurdodedig y Bwrdd Iechyd Lleol, Gwasanaethau Atal Twyll GIG Cymru, a/neu archwilwyr penodedig.

Enw	
Rhif Cofrestru Proffesiynol	
Cyfeiriad	
E-bost/Rhif Cyswllt	
Rhif Yswiriant Gwladol	
Llofnod	
Dyddiad	

Rhowch enw a chyfeiriad y darparwr gofal sylfaenol y mae'r ffurflen gais hon i weithwyr locwm yn cael ei chyflwyno iddo, ac sydd wedi ei awdurdodi i wneud y cais ar eich rhan.

Enw:-

Cyfeiriad:-

Atodiad E – Ffurflen Gais i Ddarparwyr Gofal Sylfaenol

Os bydd darparwr gofal sylfaenol am wneud cais am daliad bonws COVID-19 y GIG ar ei gyfer ei hun (os yw'n unigolyn neu'n bartneriaeth sy'n cynnwys o leiaf un unigolyn), neu ar ran aelodau o staff cymwys neu weithwyr locwm cymwys (fel y diffinnir y naill a'r llall yng Nghyfarwyddydau Gofal Sylfaenol (Cynllun Taliad Bonws COVID-19 y GIG) 2021), rhaid iddo lenwi ffurflen gais electronig (dolen isod).

Bydd angen ichi ddarparu enw a rhif Yswiriant Gwladol pob unigolyn cymwys sydd wedi ei gynnwys yn eich ffurflen gais.

Rhwng 28 Mai 2021 a 11 Mehefin 2021, bydd cyfle i weithwyr locwm lenwi eu ffurflen gais, ac mae'n bosibl y byddant yn cyflwyno'r ffurflen hon ichi ac yn gofyn ichi eu cynnwys yn eich cais.

Bydd angen ichi gyflwyno eich ffurflen gais o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 12 Mehefin 2021 ac yn dod i ben ar 30 Medi 2021.

Fodd bynnag, os ydych am gael y taliad cyn 14 Medi 2021, bydd angen ichi gyflwyno eich cais electronig erbyn 30 Mehefin 2021 fan bellaf.

Bydd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn prosesu pob cais cymwys a thelir y taliadau'n uniongyrchol i chi ar sail nifer y ceisiadau a gymeradwywyd. Yna, bydd gofyn ichi drosglwyddo'r swm priodol (yn amodol ar unrhyw ddiidyniadau a ganiateir, fel y nodir uchod) i'r unigolion hynny y gwnaethoch y cais ar eu rhan.

<https://forms.office.com/r/8RJxCJPtWP>